OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 2291 (Cy.170)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (A470) (Gwelliant Blaenau Ffestiniog i Gancoed) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *16 Awst 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**):—

**1.** Daw'r briffordd newydd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu ei adeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn i rym.

**2.** Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

**3.** Bydd y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog bras ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd a chaiff ei dosbarthu fel ffordd annosbarthedig o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hysbysu Cyngor Gwynedd fod y gefnffordd newydd ar agor i draffig drwodd.

**4.** Yn y Gorchymyn hwn:—

(a) mae pob mesur o bellter wedi'i fesur ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(b) ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (A470).

ystyr "y gefnffordd newydd" ("*the new trunk road*") yw'r briffordd a grybwyllir yn Erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan a rifwyd HA10/2 NAFW 6 wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (A470) (Gwelliant Blaenau Ffestiniog i Gancoed) 2005" ei lofnodi ar ran y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'i adneuo yn Ystorfa Cofnodion ac Uned Ailafael Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwynt Neptune, Ocean Way, Caerdydd;

**5.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2005 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (A470) (Gwelliant Blaenau Ffestiniog i Gancoed) 2005.

(**1**) 1980 p.66.
(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, rhoddwyd y pwerau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dyddiedig 16 Awst 2005

*S. C. Shouler*
Cyfarwyddwr, Polisi Trafnidiaeth a Gweinyddu

## ATODLEN 1

### LLWYBR Y GEFNFFORDD NEWYDD

Llwybr sydd wedi'i leoli rhwng Blaenau Ffestiniog yn Sir Gwynedd a Chancoed ym Mwrdeistref Sirol Conwy, tua 0.212 km o hyd, gan ddechrau o bwynt ar y gefnffordd bresennol 38 metr i'r dwyrain o'r eiddo a adweinir fel Tŷ Mawr (a Tal y Waenydd House) ac yna yn mynd tua'r gogledd hyd at bwynt rhyw 38 metr i'r gogledd o'r eiddo a adweinir fel Rhif 18 Rhesdai Oakeley.

## ATODLEN 2

### DARN O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Å BOD YN GEFNFFORDD

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n dechrau o bwynt ar y gefnffordd bresennol 19 metr i'r de-ddwyrain o gornel dde-ddwyreiniol yr eiddo a adweinir fel Rhif 1 Rhesdai Oakeley ac yna'n mynd tua'r gogledd-ddwyrain am tua 0.14 kilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol tua 19 metr i'r gogledd o gornel ogledd-ddwyreiniol yr eiddo a adweinir fel Rhif 18 Rhesdai Oakeley.